

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 30AIN O DACHWEDD 2015 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Barri Evans (Cadeirydd), Iwan Jones, Gwennan Hughes, Philip Williams, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Stanley Williams, Hywel Davies, Elfed Williams, Jill Evans, Falmai Evans a Iona Edwards-Jones.

2. TRAFODAETH GYDA MR DARREN MILLAR, AELOD Y CYNULLIAD DROS ORLLEWIN CLWYD.

Croesawodd y Cadeirydd i Mr Darren Millar am fynychu'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynglŷn ar ganlynol:-

A Phrinder gwasanaeth Band Eang yn y gymuned.

B. Gwasanaeth Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

C. Treth Cyngor Sir Ddinbych.

D. Adeilad cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych.

E. Gwasanaeth Awelon yn Rhuthun a Dolwen yn Ninbych.

F. Ffynnon Dyfnog yn Llanrhaeadr.

G. Gwasanaeth Ysbyty Rhuthun.

Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Millar am ei bresenoldeb yn y Cyngor.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 26ain o Hydref 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau unwaith mae'r plant ysgol wedi ei disgyn y bws i gyd ym Mhrion a Saron o Ddinbych mae'r daith yn ôl i Ruthun i fynnu i'r gyrrwr y bws.

B. Mae'r gwasanaeth bws i gludo plant ysgol o Lanrhaeadr at Lanynys wedi ei therfyn ers hanner tymor yr Hydref.

C. Nid mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn caniatáu Siop-y-Pentref, Llanrhaeadr rhoi un "A Board" ar dir glas tu allan i'r Siop oherwydd y gyfraith.

D. Derbyniwyd Y Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn egluro problem rhwng y Gwasanaeth Cwsmeriaid a'r Adran Briffyrdd oedd y rheswm bod y Cyngor ddim wedi cael ymateb i'r materion ffyrdd y Cyngor Cymuned.

E. Derbyniwyd ymateb a gwybodaeth oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn ar reolau i gymered drosodd fynwentydd. Cytunodd Y Cynghorydd Philip Williams i edrych dros y wybodaeth a adroddi yn ôl i'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

F. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mr Llefelys Rees mi fydd yn cychwyn ar y gwaith sydd ei angen ar wal Gof Golofn yn Llanrhaeadr ar ddiwedd Ionawr neu gychwyn Chwefror 2016.

## 5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £17,438.00.

B. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am ddau arwydd pentref "Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch" - £1,248.86.
2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2015 - £360.00.
3. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2015 - £90.00
4. Cynghorydd Philip Williams am gostau teithio i Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar y 3ydd o Hydref 2015 - £98.00.
5. Y Llog Prydeinig Brenhinol (Cangen Dinbych) am y torch i'r Sul y Cofion - £23.00.
6. Tal Aelodaeth Gymdeithas Y Clercod - £131.00.

## 6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Tynnu amodau 4, 5 a 6 o'r cais cynllunio (Code for Sustainable Homes) yn Nhŷ Newydd, Saron.

2. Adeiladu modurdai ac estyniad i'r ffin y tir ym Muarth Pentre' Llech, Llanrhaeadr.

B. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Cais newydd am ddymchwel adeilad allanol ac adeiladu adeilad newydd i chwaraeon ac yn y blaen yn Fron Ystrad, Llanrhaeadr.

2. Cais Cynllunio i'r amod 17 yn Brŷn Morfydd, Llanrhaeadr.

3. Trosiad dau adeilad allanol i ddau breswyl yn Y Grange, Prion.

4. Datblygiad cyfreithiol toriad amod preswylith amaethyddol yn Hafod-y-Bryn, Llanrhaeadr.

## 7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd y Clerc neges ffôn oddi wrth Y Cynghorydd Sir Ddinbych i ofyn i'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr gofyn i'r perchnogion sydd yn gwerthu Bryn Bela, Saron i newid enw'r preswyl i'r enw gwreiddiol, sef Bryn Saron. Penderfynwyd gadael ar y bwrdd.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hysbysu'r Cyngor Cymuned y bydd gwaith yn dechrau'n fuan ar gynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yng nghyffiniau Ysgol Bro Cinmeirch. Fydd y gwaith yn cael ei ariannu gyda chymorth grant Llywodraeth Cymru.

C. Derbyniwyd oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ffurflen Gwasanaethau Cwsmer i adroddi unrhyw broblem priffyrdd yn y gymuned.

D. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Ffordd rheng Fferm-y-Coleg a Pen-y-Gerddi ym Mheniel eisiau sylw.

2. Gofyn am oleuadau fflachio 30 filltir yr awry n Pentre' Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd yr aelodau i drafod prynu cyfrifiadur i'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr i'r Clerc yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Ionawr 2016 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.